# POLISI APELIADAU DYRCHAFIADAU ACADEMAIDD

| Adolygwyd | Dyddiad | Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o’r Newid | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|
| 1. | 2022 | Proses apelio cylch dyrchafiadau interim 2022 | Amherthnasol |
| 2 | 2024 | Newidiadau cosmetig wedi'u gwneud – er enghraifft – diweddaru terminoleg | Amherthnasol |
| 3. | | | |

| Swyddog Polisi | Yr Uwch Swyddog sy’n Gyfrifol | Cymeradwywyd gan Bwy a'r Dyddiad | Asesu Effaith Cydraddoldeb a’r dyddiad |
|---|---|---|---|
| Louise Shipton | Tracy Hibbert | | |

## Diben y Polisi

Gall unigolion sy’n aflwyddiannus yn eu ceisiadau i gael eu dyrchafu/eu hailraddio apelio yn erbyn y canlyniad a gofyn am adolygiad.

## Cwmpas

Mae’r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i’r holl staff a wnaeth gais am ddyrchafiad cynnar i Ddarlithydd 2 (Gradd 8), Uwch Ddarlithyddiaeth (Gradd 9), Cymrawd Ymchwil (Gradd 8) a Uwch Gymrawd Ymchwil (Gradd 9), Darllenydd ac Athro a’u nod yw sicrhau y caiff pob aelod o’r staff y cyfle i apelio yn erbyn cais aflwyddiannus os ystyriant y bu eu cais o dan anfantais oherwydd methiannau gweithdrefnol.

## Cyfrifoldeb

Cyfrifoldeb Y Prif Swyddog Pobl, sy'n adrodd i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Lles, yw gweithredu, monitro ac adolygu'r polisi hwn ledled y Brifysgol.

DIG / Pennaethiaid Coleg, Penaethiaid yr Ysgolion a Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol sy'n gyfrifol am weithredu’r Polisi yn y Colegau.

## Egwyddorion Craidd

- Caiff y staff sy'n gallu dangos y bu eu cais o dan anfantais, am resymau gweithdrefnol, apelio yn erbyn y penderfyniad cychwynnol.
- Bydd y Brifysgol yn gweithredu proses benderfynu deg i ddatrys apeliadau’r staff.

# GWEITHDREFN AR GYFER APELIADAU YNGHYLCH DYRCHAFIADAU ACADEMAIDD

## 1. AMSERLEN

Rhaid i unigolion sy’n gwneud cais am apêl gyflwyno eu hachos i’r Adnoddau Dynol o fewn 4 wythnos i dderbyn y canlyniad.

## 2. Y RHESYMAU DROS APELIO

Ni chaiff neb apelio onid ydynt yn credu:

- Na chafodd y weithdrefn y cytunwyd arni i ystyried ceisiadau am ddyrchafiadau ac ailraddiadau ei gweithredu'n gywir.

## 3. Y WEITHDREFN YMGEISIO

Wrth wneud cais am adolygiad, rhaid i’r apelydd ddarparu datganiad sy’n amlygu’n glir y meysydd o’r gweithdrefnau dyrchafiadau y cytunwyd arnynt nad ydynt yn credu y cawsant eu cymhwyso’n gywir i’w hachos, ynghyd â manylion ynghylch pam y credant fod hynny’n wir.

Ni chaniateir cyflwyno tystiolaeth newydd, heblaw am y rhesymau gweithdrefnol, fel rhan o'r apêl.

## 4. Y PANEL

Dylai’r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar y Paneli fod mor agos at 50% gwrywaidd a 50% benywaidd ag sy’n rhesymol bosibl.

Fel arfer bydd y Panel Apêl yn cynnwys yr aelodau cymwys canlynol:

- Cadeirydd annibynnol (aelod lleyg o’r Cyngor, neu Gadeirydd arall y cytunir arno/arni)
- Pennaeth Ysgol (o faes yr ymgeisydd)
- 1 Cynrychiolydd UCU
- Gwasanaethir y panel gan yr Adnoddau Dynol

Ni fydd y Panel Apêl yn ceisio gwerthuso barn broffesiynol Panel Dilysu Dyrchafiadau Academaidd y Brifysgol / Pwyllgor yr Athrawon a’r Darllenwyr ond bydd yn ystyried a gafodd y gweithdrefnau dyrchafu y cytunwyd arnynt eu cymhwyso’n gywir.

Ni fydd y Panel Apêl yn ystyried unrhyw dystiolaeth newydd a gyflwynir gan yr apelydd y tu hwnt i'r rhesymau gweithdrefnol.

## 5. HYSBYSU YNGHYLCH Y CANLYNIAD/ADBORTH

Bydd yr Adnoddau Dynol yn ysgrifennu at yr ymgeiswyr i'w hysbysu ynghylch canlyniad yr apêl.

Os caiff yr apêl ei chadarnhau caiff eich achos ei gyfeirio at y panel cychwynnol a fydd yn asesu effaith y rheswm dros y penderfyniad ynghylch y canlyniad ailraddio cychwynnol.

## 6. DIOGELU DATA

Caiff y papurau cefndirol a'r adroddiadau sy'n ymwneud â cheisiadau am ddyrchafiadau eu cadw'n ganolog yn yr adran Adnoddau Dynol, ac yn unol â'r Rheoliad Ddiogelu Data Cyffredinol.